**Lesley Griffiths AC / AM**
**Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi**
**Minister for Communities and Tackling Poverty**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-04-551
Ein cyf/Our ref LG/05324/14

William Powell AC
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

committeebusiness@Wales.gsi.gov.uk

8 Tachwedd 2014

Annwyl Bill

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 29 Hydref, ynghylch Deiseb P-04-55 - Cefnogi'r safonau cyfranogaeth plant a phobl ifanc.

Mae'r argymhellion yn Small Voice, Big Vision wedi bod yn ddefnyddiol ac rydym wedi bwrw ymlaen gyda'r mwyafrif ohonynt. Mae Strwythurau Cyfranogi Cenedlaethol wedi newid yn ddiweddar a Plant yng Nghymru sydd bellach yn arwain ar fodel Genedlaethol ar gyfer cyfranogaeth plant a phobl ifanc a'r Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol. O ganlyniad, roedd angen diweddaru gwybodaeth ac mae fy swyddogion wedi bod yn gweithio gyda Plant yng Nghymru, y Comisiynydd Plant ac Awdurdodau Lleol i sicrhau bod y model newydd yn cael ei hyrwyddo a'i roi ar waith.

Bydd Plant yng Nghymru yn parhau i gefnogi a hyrwyddo'r Porth Cyfranogiad. Mae'n nodi'n glir yr hyn a olygir gan gyfranogi ac mae'n amlinellu'r strwythurau i gefnogi gweithwyr. Mae Plant yng Nghymru wedi cwrdd ag Achub y Plant i sicrhau bod hyn yn cynnwys yr adnoddau a ddatblygwyd, fel y cyfeiriwyd atynt yn adroddiad terfynol yr Uned Gyfranogi.

O ran gosod y strwythurau lleol a chenedlaethol i gefnogi cyfranogaeth rydym wedi ailgyhoeddi Cydamcanu – Cydymdrechu, y canllawiau statudol ar gyfer Awdurdodau Lleol a'u partneriaid wrth ddatblygu Cynlluniau Integredig Unigol. Mae nawr yn cynnwys Atodiad sy'n nodi'r canllawiau statudol ar gyfer sicrhau cyfranogiad plant a phobl ifanc a'i hyrwyddo o dan Adran 12 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 yng nghyd-destun Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP).

Hyd yma, mae pob un o'r 22 Awdurdod Lleol wedi derbyn ymweliad asesu i graffu y trefniadau sy'n bodoli o ran rhoi'r ddyletswydd ar waith a'r modd y caiff hyn ei wneud yng nghyd-destun y Cynlluniau Integredig Unigol. Yn ystod yr ymweliadau hyn, bu swyddogion yn cwrdd â Gweithwyr Cyfranogi, Cyd-gysylltwyr Plant a Phobl Ifanc, Prif Weithredwyr, prif swyddogion y Cynllun Integredig Sengl, Cyfarwyddwyr Arweiniol, Fforymau Ieuenctid, Seneddau Ieuenctid a Chynghorau Ieuenctid.

Rydym wedi ein calonogi gan ymrwymiad, arloesedd ac ystod y cyfleoedd sydd ar gael yn y rhan fwyaf o'r Awdurdodau Lleol. Byddwn yn rhannu gydag eraill elfennau o arfer da yr awdurdodau sy'n gosod esiampl. Caiff y rhai nad ydynt wedi gallu rhoi tystiolaeth i ddangos eu bod wedi rhoi'r canllawiau ar waith yn llawn eu hail-ymweld â nhw o fewn 12 mis gan nodi'r meysydd yr ydym yn disgwyl iddynt eu datblygu.

Mae'r Cynllun Hawliau Plant 2014, a gymeradwywyd gan y Cynulliad Cenedlaethol ym mis Mai, yn sicrhau eglurder a thryloywder o ran y modd y bydd y Gweinidogion yn ystyried Hawliau'r Plant sydd wrth gwrs yn cynnwys eu cyfranogiad. Rydym yn ddiolchgar i'r Sefydliadau nad ydynt yn rhan o'r Llywodraeth, yr Awdurdodau Lleol a sefydliadau eraill sydd wedi rhoi cyngor inni gydol cyfnod datblygu'r cynllun, ac sy'n parhau i roi cyngor wrth inni ei roi ar waith.

Yn gywir

Lesley

**Lesley Griffiths AC / AM**
Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi
Minister for Communities and Tackling Poverty